**Rhif:** WG37934

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Newidiadau arfaethedig i ofynion gosod targedau ysgol yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2019

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 ISBN Digidol 978-1-83876-901-7

# Newidiadau arfaethedig i ofynion gosod targedau ysgol yng Nghymru

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Cyrff addysg sy'n ymwneud â, neu sydd â diddordeb mewn, gosod targedau ysgol yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion, awdurdodau lleol, consortia addysg ranbarthol, undebau athrawon, cyrff dyfarnu, ymarferwyr a chyrff cyhoeddus. |
| **Trosolwg** | Ar 21 Ionawr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad 6 wythnos ar newidiadau arfaethedig i'r gofynion gosod targedau ar gyrff llywodraethu ysgolion mewn perthynas â disgyblion Blwyddyn 11 yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd, yn rhoi ymateb Llywodraeth Cymru ac yn nodi'r camau nesaf. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Y Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion<br>Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: ims@llyw.cymru<br>Ffôn: 03000 0625014<br><br>@LlC_Addysg<br><br>Facebook/AddysgCymru |
| **Copïau ychwanegol** | Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://llyw.cymru/newidiadau-i-ofynion-gosod-targedau-i-ysgolion |
| **Dogfennau cysylltiedig** | https://llyw.cymru/newidiadau-i-ofynion-gosod-targedau-i-ysgolion |

Addysg yng Nghymru: *Cenhadaeth ein cenedl*

*Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011*

*Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon (Cymru) 2018*

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **11** |
| **Crynodeb** | **11** |
| **Ymatebion** | **12** |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru** | **20** |
| **Y Camau Nesaf** | **22** |

## Cyflwyniad

Ar 21 Ionawr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad 6 wythnos ar newidiadau arfaethedig i'r gofynion gosod targedau ar gyrff llywodraethu ysgolion mewn perthynas â disgyblion Blwyddyn 11 yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd, yn rhoi ymateb Llywodraeth Cymru ac yn nodi'r camau nesaf.

## Crynodeb

Gofynnodd yr ymgynghoriad gyfanswm o saith cwestiwn am gynigion i wneud newidiadau i'r gofynion gosod targedau ar gyrff llywodraethu ysgolion mewn perthynas â disgyblion Blwyddyn 11 yng Nghyfnod Allweddol 4. Y cynigion oedd y dylid:

- dileu'r gofyniad i osod targedau mesur-benodol – byddai hyn yn dileu'r gofyniad statudol i gyrff llywodraethu osod targedau mewn perthynas â chanran disgyblion Blwyddyn 11 sy'n cyflawni: - i) trothwy Lefel 2 gan gynnwys cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg (h.y. trothwy cynwysedig Lefel 2) a ii) trothwy Lefel 1 (5 cymhwyster TGAU graddau A*- G)

- cynyddu nifer y targedau amhenodol y mae'n ofynnol eu gosod – byddai hyn yn cynyddu nifer y targedau amhenodol y mae gofyn i gyrff llywodraethu eu gosod eisoes ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 yng Nghyfnod Allweddol 4 (o dri i chwech) yn seiliedig ar hunanwerthusiad

- gwneud darpariaeth drosiannol sy'n galluogi'r corff llywodraethu i osod targedau dros dro a thargedau terfynol ar gyfer 2019 i 2020 (y flwyddyn bontio) nad ydynt yn seiliedig ar darged a osodwyd mewn blynyddoedd ysgol blaenorol.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 21 Ionawr 2019 a 8 Mawrth 2019. Hoffem ddiolch i'r holl randdeiliaid am roi o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad a chyflwyno eu sylwadau.

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at: ims@llyw.cymru.

# Ymatebion

Cafwyd cyfradd ymateb cymharol isel i'r ymgynghoriad gyda dim ond 33 o ymatebion yn cael eu cyflwyno. Cafwyd ymatebion gan gymysgedd o gonsortia rhanbarthol, Awdurdodau Lleol, undebau, ysgolion, cyrff rheoleiddio, unigolion a sefydliadau cynrychioliadol. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr isod.

| **Sefydliad** | |
|---|---|
| 1 | Gwasanaeth Cyflawni Addysg |
| 2 | UCAC |
| 3 | Dienw |
| 4 | NASUWT (undeb) |
| 5 | Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig (CES) |
| 6 | Ysgol Uwchradd Fitzalan |
| 7 | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) |
| 8 | Pwyllgor Penaethiaid Uwchradd Caerdydd |
| 9 | Estyn |
| 10 | GwE |
| 11 | Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru |
| 12 | Mr John Killick |
| 13 | Cyngor Sir y Fflint |
| 14 | NAHT Cymru |
| 15 | Cymwysterau Cymru |
| 16 | Mr Alun Jones |
| 17 | Dienw |
| 18 | Dienw |
| 19 | Dienw |
| 20 | Dr Alan Houston |
| 21 | Dienw |
| 22 | Dienw |
| 23 | Dienw |
| 24 | Dienw |
| 25 | Dienw |
| 26 | Dienw |
| 27 | Dienw |
| 28 | Yr Adran Addysg, Cyngor Abertawe |
| 29 | Dienw |
| 30 | Ysgol Uwchradd Darland |
| 31 | Ysgol Maesydderwen |
| 32 | Dienw |
| 33 | Dienw |

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o ystadegau ymatebion wedi'u rhannu'n gategorïau: ‘cytuno’, ‘anghytuno’, ‘ddim yn cytuno nac yn anghytuno’ a ‘sylwadau yn

unig'. Cofnodir ymatebion fel 'sylwadau yn unig' lle y darparodd yr ymatebydd sylwadau ond na nododd yn benodol p'un a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig. Nid yw Cwestiynau 5 – 7 wedi cael eu cyfrifo am eu bod yn gofyn cwestiynau mwy agored gydag amrywiaeth o atebion.

| | **Cytuno** | | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | | **Sylwadau yn unig** | | **CYFANSWM** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn** | ***Nifer*** | ***%*** | ***Nifer*** | ***%*** | ***Nifer*** | ***%*** | ***Nifer*** | ***%*** | ***Nifer*** | ***%*** |
| Cwestiwn 1 | 26 | 81 | 4 | 13 | 1 | 3 | 1 | 3 | **32** | **100** |
| Cwestiwn 2 | 20 | 63 | 4 | 12 | 6 | 19 | 2 | 6 | **32** | **100** |
| Cwestiwn 3 | 12 | 38 | 11 | 34 | 7 | 22 | 2 | 6 | **32** | **100** |
| Cwestiwn 4 | 7 | 23 | 13 | 42 | 11 | 35 | 0 | 0 | **31** | **100** |

*Mae'n bosibl na fydd rhai cyfansymiau yn cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu

## Dadansoddiad o'r Ymatebion

| C1. | Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddileu'r gofyniad statudol ar gyrff llywodraethu ysgol i osod targedau perfformiad mesur-benodol i ddisgyblion Blwyddyn 11 yng Nghyfnod Allweddol 4? | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | | **Sylwadau yn unig** | | **Cyfanswm** | |
| ***Nifer*** | ***%*** | ***Nifer*** | ***%*** | ***Nifer*** | ***%*** | ***Nifer*** | ***%*** | ***Nifer*** | ***%*** |
| 26 | 81 | 4 | 13 | 1 | 3 | 1 | 3 | 32 | 100 |

Atebodd cyfanswm o **32** o randdeiliaid y cwestiwn hwn gyda'r mwyafrif, sef 26 o'r ymatebwyr (81%), yn cytuno â'r cynnig. Cafwyd nifer o sylwadau o blaid dileu targedau atebolrwydd penodol am fod yr ymatebwyr o'r farn ei bod yn darparu ar gyfer atebolrwydd callach am ddysgwyr â chyrhaeddiad uwch ac is, yn ogystal â chefnogi llesiant dysgwyr a staff.

Roedd pedwar ymatebydd (13%) yn anghytuno â'r cynnig. O'r rhain, roedd un o'r farn y dylai'r gofyniad i osod targedau yn erbyn yr hen fesurau gael ei ddisodli gan ofyniad i osod targedau yn erbyn y mesurau perfformiad newydd ar y sail mai Cyfnod Allweddol 4 yw'r unig Gyfnod Allweddol â data cyhoeddedig ar lefel ysgol ac awdurdod lleol a lefel ranbarthol a chenedlaethol a'r unig Gyfnod Allweddol sy'n seiliedig ar gymwysterau allanol. Gwnaethant gyfeirio hefyd at ddiffyg cysondeb o ran y ffordd y cesglir gwybodaeth yn erbyn yr hyn sydd ar gael wedyn i'r cyhoedd ac a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Roedd un ymatebydd am gadw mesur cynhwysol Lefel 2 fel dull defnyddiol o ysgogi gwelliant mewn ysgolion.

Nid oedd un ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig.

Ni nododd un ymatebydd yn benodol p'un a oedd yn cytuno â'r cynnig ai peidio ond, serch hynny, roedd yn cefnogi bwriad y cynnig gyda rhywfaint o bryder ei bod yn bosibl na chaiff nodau'r cynigion eu cyflawni yn ymarferol.

Cyfeiriodd rhai pwyntiau cyffredinol a wnaed gan ymatebwyr unigol at yr angen i roi eglurder i gyrff llywodraethu ac ysgolion, yr angen am rywfaint o gysondeb rhwng ysgolion ac atebolrwydd clir am dargedau a'r angen i sicrhau na fydd Cynghorwyr Herio yn parhau i ddwyn ysgolion, arweinwyr ysgol ac athrawon i gyfrif am dargedau sy'n adlewyrchu trothwyon presennol cynwysedig Lefel 2 a Lefel 1.

| C2. | Ydych chi'n cytuno y dylai gofynion gosod targedau ysgol statudol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 yng Nghyfnod Allweddol 4 fod yn amhenodol, gan roi mwy o ymreolaeth i ysgolion osod targedau gwirioneddol heriol sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau gwella gwirioneddol yng nghyd-destun yr ysgol ei hun ar sail hunanwerthusiad? | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | | **Sylwadau yn unig** | | **Cyfanswm** | |
| ***Nifer*** | ***%*** | ***Nifer*** | ***%*** | ***Nifer*** | ***%*** | ***Nifer*** | ***%*** | ***Nifer*** | ***%*** |
| 20 | 63 | 4 | 12 | 6 | 19 | 2 | 6 | **32** | **100** |

Atebodd cyfanswm o **32** o randdeiliaid y cwestiwn hwn gyda'r mwyafrif, sef 20 o'r ymatebwyr (63%), yn cytuno â'r cynnig. Roedd y sylwadau a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys y byddai'n dileu canlyniadau negyddol meincnodi ar setiau data cul, a oedd yn aml yn anfwriadol. Nododd un ymateb fod gormod o newidynnau ar hyn o bryd pan gaiff ei ddefnyddio i gymharu ysgolion, ac y dylai targedau bob amser ymwneud ag ysgolion a dysgwyr unigol. Nodwyd hefyd fod angen i ddarparu cyngor a chanllawiau lleol cyson ar brosesau hunanwerthuso effeithiol a chyfeirio at arfer da, yr angen am drefniadau cadarn er mwyn sicrhau bod ysgolion yn nodi'r targedau mwyaf priodol ar gyfer gwella a'r angen i sicrhau bod ffocws ar wella darpariaeth a safonau i ddysgwyr.

Dim ond 4 ymatebydd (12%) a oedd yn anghytuno â'r cynnig gydag un yn cyfeirio at ddiffyg cysondeb o ran y ffordd y mae targedau yn cael eu gosod yng Nghyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4. Roedd y lleill o'r farn y dylai ysgolion allu gosod targedau heriol yn seiliedig ar eu blaenoriaethau eu hunain yn ogystal â rhai penodol sy'n adlewyrchu'r hyn sydd ei angen ar bobl ifanc i symud ymlaen i gael gwaith, hyfforddiant neu addysg bellach megis mathemateg, Saesneg a rhywfaint o wyddoniaeth. Gofynnodd ymatebydd arall a fyddai dileu targedau penodol yn arwain at osod disgwyliadau afrealistig ar rai ysgolion neu'n peri i ysgolion eraill osod targedau anuchelgeisiol. Cyfeiriodd un ymateb at rieni/gofalwyr; y dylent allu cael gwybodaeth am gyflawniad disgyblion sy'n eu galluogi i gymharu ysgolion.

Nid oedd chwe ymatebydd (19%) yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig. Roedd un ohonynt yn ysgol a nododd fod gosod targedau yn erbyn mesurau perfformiad yn ddefnyddiol ac y byddai'n parhau i wneud hynny.

Roedd y llall (Estyn) o'r farn y byddai'n briodol pennu meini prawf cyffredinol ar gyfer y targedau sy'n dilyn blaenoriaethau cenedlaethol megis yr Iaith Gymraeg, lleihau'r effaith ar dlodi a chodi safonau disgyblion mwy galluog. Gwnaethant awgrymu hefyd y dylid ei gwneud yn ofynnol i nifer benodol o dargedau gael eu gosod yn erbyn y mesurau sgôr pwyntiau newydd er mwyn osgoi'r ffocws hanesyddol ar fesur trothwy cynwysedig Lefel 2.

Gwnaeth 2 ymatebydd (6%) sylwadau cyffredinol ond ni wnaethant nodi'n benodol p'un a oeddent yn cytuno â'r cynnig ai peidio. Nododd un o'r rhain (Cymwysterau Cymru) bryder y gall targedau sy'n seiliedig ar ddeilliannau cymwysterau arwain at arfer addysgu culach, gan awgrymu y dylai mesurau fod yn ehangach a defnyddio gwybodaeth ansoddol er mwyn helpu i ddehongli newidiadau i fesurau.

Argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi canllawiau ar sut i lunio a gosod targedau priodol er mwyn helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i fanteisio i'r eithaf ar yr hyblygrwydd a gyflwynir yn y cynigion. Rhoddwyd rhai enghreifftiau defnyddiol megis syniadau ynglŷn â sut i ymgorffori barn myfyrwyr ar faterion megis addysgu a dysgu ac adborth gan gymuned ysgol, neu ffyrdd o fesur llesiant myfyrwyr a staff. Awgrymwyd hefyd y dylid datblygu cronfa genedlaethol o adnoddau dros amser yn seiliedig ar arfer da o ran y ffordd y gall ysgolion ddatblygu mesurau effeithiol.

Yn yr un modd, nododd yr ymateb bwysigrwydd sicrhau bod ysgolion yn cael cymorth i wneud defnydd priodol o ddata canlyniadau perfformiad, er enghraifft er mwyn darparu ar gyfer amrywiadau ystadegol normal o flwyddyn i flwyddyn sy'n gysylltiedig â meintiau sampl cymharol fach ar lefel ysgol.

Canolbwyntiodd yr ymatebydd sy'n weddill ar y trefniadau atebolrwydd newydd yn fwy cyffredinol ac roedd am gael sicrwydd na fydd y trefniadau newydd yn gosod llwyth gwaith na baich biwrocrataidd diangen na gormodol ar athrawon nac arweinwyr ysgol.

| C3 | A ydych yn cytuno â'n cynnig i gynyddu nifer ofynnol y targedau amhenodol i ddisgyblion Blwyddyn 11 yng Nghyfnod Allweddol 4 ar sail hunanwerthusiad? Mae gofyn i gyrff llywodraethu ysgolion osod tri tharged yn y ffordd hon eisoes. | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | | **Sylwadau yn unig** | | **Cyfanswm** | |
| ***Nifer*** | ***%*** | ***Nifer*** | ***%*** | ***Nifer*** | ***%*** | ***Nifer*** | ***%*** | ***Nifer*** | ***%*** |
| 12 | 38 | 11 | 34 | 7 | 22 | 2 | 6 | **32** | **100** |

Atebodd cyfanswm o 32 o randdeiliaid y cwestiwn hwn gyda 12 o'r ymatebwyr (38%) yn cytuno â'r cynnig. Cyfeiriodd rhai sylwadau unigol a oedd yn cefnogi'r cynnig at bwysigrwydd llunio targedau ystyrlon yn hytrach na dim ond chydymffurfio â nifer benodol, gydag un ymatebydd yn croesawu pa mor bwysig ydyw y gall ysgolion bennu'r targedau hyn, yn hytrach na'r Awdurdod Lleol neu gonsortia. Nododd un ymatebydd fod hyn yn gweddu'n dda i brosesau hunanwerthuso lleol tra nododd ymatebydd arall fod angen cymedroli prosesau hunanwerthuso er mwyn osgoi gorddatgan. Cyfeiriodd ymateb pellach at bryderon ynghylch cryfder prosesau hunanwerthuso mewn rhai ysgolion sy'n arwain at amrywioldeb o ran y targedau a osodir.

Cyfeiriodd dau ymatebydd at broblemau gyda'r derminoleg sy'n cael ei defnyddio, gyda'r ddau yn awgrymu bod angen egluro sut mae'r term "targed" yn cael ei ddefnyddio. Cyfeiriodd un o'r rhain (o gonsortiwm rhanbarthol) at dargedau fel 'meysydd i'w datblygu' ac awgrymodd y gall diffinio'r rhain yn glir fod yn ymarfer meintiol ac ansoddol.

Roedd 11 ymatebydd (34%) yn anghytuno â'r cynnig ac o'r farn y dylid cadw nifer y targedau amhenodol at dri (ymdrinnir â hyn yn benodol gan gwestiwn 4). Ymhlith y rhesymau a roddwyd roedd cysondeb rhwng pob cyfnod allweddol a rhoi'r hyblygrwydd i ysgolion benderfynu a oes angen iddynt gynyddu nifer y targedau. Awgrymodd un o'r ymatebwyr y dylid ei gwneud yn ofynnol i dri tharged penodol sy'n seiliedig ar fesurau perfformiad interim gael eu gosod.

Nid oedd 7 ymatebydd (22%) yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig a gwnaethant gyfeirio at yr angen am eglurhad pellach o ran ystyr 'targedau amhenodol' a'r angen i sicrhau bod cymorth, cyngor a chanllawiau priodol ar gael er mwyn gosod targedau ystyrlon. Roedd un ymatebydd o'r farn y dylai targedau amhenodol ganolbwyntio ar flaenoriaethau ysgol gyfan am y gallai'r dull hwn o weithredu arwain, o bosibl, at organolbwyntio ar Gyfnod Allweddol 4, tra roedd chwe ymatebydd o'r farn y dylai nifer y targedau ddiwallu anghenion ysgolion a dysgwyr ac na ddylai fod nifer benodedig.

Darparodd y 2 ymatebydd (6%) sy'n weddill sylwadau yn unig heb nodi'n benodol p'un a oeddent yn cytuno â'r cynnig ai peidio. Awgrymwyd bod hwn yn gyfle i leihau nifer y targedau er mwyn lleihau'r pwysau ar ysgolion, athrawon ac arweinwyr ysgol sydd i'w priodoli i'r ffaith bod llawer yn y fantol.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd ffocws a chwmpas mesurau yn hytrach na nifer wirioneddol y targedau unwaith eto, ynghyd â'r angen i lunio canllawiau i ysgolion. Cafwyd sylwadau hefyd yr ymdriniwyd â nhw yng nghwestiwn 2, gan gynnwys pryder y gall targedau sy'n seiliedig ar ddeilliannau cymwysterau arwain at arfer addysgu culach.

| C4 | Ydych chi'n cytuno bod chwech yn nifer priodol o dargedau statudol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 yng Nghyfnod Allweddol 4? Os nad ydych, faint ddylid eu cael a pham? | | |
|---|---|---|---|
| **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Cyfanswm** |

| Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | 23 | 13 | 42 | 11 | 35 | 31 | 100 |

Atebodd cyfanswm o **31** o randdeiliaid y cwestiwn hwn gan roi ymateb cymysg. O'r rhain, roedd 7 ymatebydd (23%) yn cytuno â'r cynnig; nododd un ymatebydd na ddylai fod mwy na chwech.

Nid oedd 11 ymatebydd (35%) yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig. Cyfeiriodd llawer o'r rhain at y ffaith bod ansawdd y targedau yn bwysicach na'r nifer (sef thema a gododd dro ar ôl tro mewn perthynas â chwestiynau eraill) gyda rhai yn nodi bod angen rhywfaint o hyblygrwydd o ran nifer y targedau sydd i'w gosod. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys nodi isafswm ac uchafswm penodol er mwyn galluogi ysgolion i benderfynu faint o dargedau y dylent eu gosod yn seiliedig ar eu cyd-destun neu nifer benodol o dargedau a osodir gan yr ysgol, yr ALl, ar lefel ranbarthol ac ar lefel genedlaethol, gan gydnabod y gwaith partneriaeth da sydd wedi datblygu rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

Holodd un ymatebydd a yw gosod nifer benodol o dargedau yn mynd yn groes i'r bwriad i roi mwy o ymreolaeth a hunangyfeiriad i ysgolion. Cyfeiriwyd unwaith eto at yr angen am gymorth a chanllawiau priodol. Roedd dau ymatebydd o'r farn y byddai 3 i 4 targed yn ddigon ac yn sicrhau mwy o ffocws, tra awgrymodd ymatebydd arall y dylai fod yn ofynnol i bob ysgol osod rhwng 3 a 5 targed yn seiliedig ar hunanwerthuso a blaenoriaethau'r ysgol.

Roedd 13 ymatebydd (42%) (2 o Undebau) yn anghytuno â'r cynnig gyda rhai yn awgrymu y byddai nifer is yn fwy priodol oherwydd yr effaith ar athrawon a phenaethiaid. Awgrymwyd y dylid pennu isafswm o 3 tharged, fel dewis amgen, a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i'r broses o osod targedau gael ei theilwra at bob ysgol unigol. Cyfeiriwyd hefyd at y risg y bydd ysgolion ond yn atgynhyrchu'r targedau presennol ar gyfer mesurau trothwy, yn ogystal â'r angen i sicrhau na fydd Cynghorwyr Herio yn parhau i ddwyn ysgolion, arweinwyr ysgol ac athrawon i gyfrif am dargedau sy'n adlewyrchu'r mesurau presennol.

| | |
|---|---|
| | Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r newidiadau arfaethedig i ofynion gosod targedau ysgol statudol yng Nghymru yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:<br><br>i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg<br>ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Pa effaith y byddai hyn yn ei chael? Sut y gallai effeithiau cadarnhaol gael eu cynyddu, neu effeithiau negyddol gael eu lliniaru? |

Atebodd cyfanswm o 22 o randdeiliaid y cwestiwn hwn. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn na fyddai'r cynnig yn effeithio ar y Gymraeg. Roedd dau ymatebydd o'r farn y byddai'r effaith yn un gadarnhaol, tra nododd ymatebydd arall na fyddai gorfodi'r Gymraeg ar ddysgwyr drwy dargedau Cyfnod Allweddol 4 yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a bod angen gosod y sylfeini yn yr ysgol gynradd. Roedd ymatebydd arall o'r farn mai Cyrff Llywodraethu ysgolion a ddylai benderfynu p'un a oes angen gosod targedau ar gyfer y Gymraeg mewn ysgolion unigol.

Nododd un ymatebydd y gallai'r cynnig ar gyfer chwe tharged amhenodol olygu ei bod yn bosibl na fyddai'r un o'r chwe tharged hyn yn gysylltiedig â'r Gymraeg ar gyfer pob ysgol, hyd yn oed ysgolion Cyfrwng Cymraeg.

Er mwyn gwella'r effaith ar y Gymraeg, roedd awgrymiadau unigol yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i ysgolion osod un targed sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg neu fynnu bod ysgolion yn gosod un targed a bennwyd gan yr ALl/targed rhanbarthol a oedd yn cynnwys datblygu darpariaeth a deilliannau yn Gymraeg. Nododd cyfanswm o 3 ymatebydd y byddent yn cefnogi dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer Cymraeg 2$^{il}$ iaith.

Ar y llaw arall, mynegodd ymatebydd arall bryder ynghylch mynnu bod ysgolion yn gosod targed penodol mewn perthynas â'r Gymraeg, er ei fod o'r farn y byddai'n rhoi pwysau diangen ar ddysgwyr a gweithwyr addysg proffesiynol. Dadleuwyd y dylai ysgolion fod yn rhydd i osod y targedau sy'n ymwneud â'u sefyllfa benodol gan ystyried ffactorau megis nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned, Anghenion Dysgu Ychwanegol a Saesneg fel Ail Iaith.

Cyfeiriodd dau ymatebydd at Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, gan nodi pa mor bwysig ydyw bod cyfle i gysylltu targedau â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol yn ogystal â gweithgarwch cynllunio rhanbarthol i Ddatblygu'r Iaith Gymraeg. Nododd un o'r rhain, os na chaiff targedau eu casglu ar gyfer y Gymraeg, y bydd hyn yn effeithio ar allu ALlau i lunio targedau cyfunol/unigol ystyrlon ar lefel ysgol ar gyfer y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

| | |
|---|---|
| C6 | Eglurwch hefyd sut y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig:<br><br>i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg<br>ii) fel na fyddant yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. |

Atebodd cyfanswm o 19 o randdeiliaid y cwestiwn hwn gyda phedwar ohonynt yn cyfeirio at eu hymateb cynharach i gwestiwn 5.

Nododd dau ymatebydd nad oeddent o'r farn bod angen gwneud unrhyw newidiadau i'r polisi, tra nododd un arall y byddai'r amrywioldeb o ran targedau yn golygu bod

angen i'r broses datblygu polisi nodi'r gofyniad i ysgolion ystyried pwyntiau i a ii uchod wrth werthuso blaenoriaethau.

Awgrymodd un ymatebydd y dylid cyflwyno sbectrwm rhugldder y gellid ei ddefnyddio fel dangosydd, tra awgrymodd un arall y dylid mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar glystyrau a strategaethau i gefnogi dysgwyr yn enwedig lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn isel ac y dylai hyn ddechrau yn y blynyddoedd cynnar a pharhau hyd at TGAU.

Awgrymodd un ymatebydd y byddai targedau amhenodol i'r ysgol gyfan yn fwy effeithiol o ran galluogi ysgolion i bennu targedau mwy addas i gefnogi'r Gymraeg, tra awgrymodd ymatebydd arall y gallai'r gwaith o ddatblygu'r Gymraeg gan ysgolion, awdurdodau lleol ac ar lefel ranbarthol gael ei wneud fel rhan o gam sicrhau ansawdd y broses gosod targedau.

Nid oedd dau ymatebydd o'r farn y byddai hyn, o reidrwydd, yn helpu i gyflawni'r ymrwymiad i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

| | |
|---|---|
| C7 | Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt. |

Cyflwynodd 17 o randdeiliaid sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Ymdriniodd y rhain ag amrywiaeth o faterion, yr ymdriniwyd â llawer ohonynt i ryw raddau mewn atebion i gwestiynau cynharach. Rhoddir crynodeb o'r pwyntiau a wnaed isod:

- Dylid adolygu'r system gyfan yn ffurfiol ar ôl cyfnod o amser y cytunwyd arno er mwyn sicrhau na fydd y system newydd yn cael canlyniadau anfwriadol newydd.
- Mwy o hyblygrwydd i ddiwygio targedau yn ystod y flwyddyn ysgol (e.e. ar ôl arolygiad)
- Yr angen i ddod o hyd i ffordd gyffredinol o fesur cynnydd disgyblion a gwerth ychwanegol gwirioneddol
- Rhywfaint o bryder y bydd consortia yn gallu penderfynu pa chwe tharged a osodir ar gyfer ysgolion ac y bydd data yn parhau i gael eu cyfuno i fyny fel o'r blaen
- Pryder nad yw caniatáu i ALlau gymeradwyo targedau yn gyson â'r nod o roi mwy o ymreolaeth i ysgolion hunanwerthuso
- Mae angen sefydlogrwydd – amser i gyflwyno ac ymgorffori newidiadau er mwyn sicrhau y cânt eu rheoli'n effeithiol a'u bod yn gynaliadwy er mwyn datblygu capasiti fel system hunanwella.
- Mae angen cynllunio datblygiad proffesiynol i arweinwyr ochr yn ochr â newidiadau i'r broses o osod targedau er mwyn sicrhau y caiff yr ethos a'r dull gweithredu cyfunol eu hymgorffori
- Mae angen monitro effaith cynigion ar faich gwaith athrawon
- Dylid cysylltu'r gwaith o wella ysgolion yng Nghymru â mesurau atebolrwydd trylwyr ac mae'n bwysig na chaiff y lefel uchel o atebolrwydd ei cholli yn y dyfodol. (ysgol)
- Mae angen egluro sut y caiff y broses ei gwirio a'i dilysu.

- Rhoddodd un o'r ymatebwyr (GwE) gyngor manwl ar wirio a dilysu, gan bwysleisio pa mor bwysig ydyw bod prosesau gosod targedau yn ategu gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar becyn cymorth Estyn/OECD i hwyluso cydweithredu ac ymgysylltu â chymheiriaid er mwyn helpu ysgolion i hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Ymhlith y sylwadau oedd:

    - Wrth ddatblygu targedau, mae'n rhaid bod yn ymwybodol o'r ffordd y caiff y broses ei gwirio, ei dilysu a'i chadarnhau.
    - Mae'r rhaid i'r broses gwirio a dilysu fod yn hydrin mewn cyd-destun lleol.
    - Mae'n rhaid i'r broses gadarnhau werthuso trylwyredd y camau gwirio a dilysu ac ni ddylai ddiffinio targedau cyffredinol a fydd yn amharu ar ei hymreolaeth ganfyddedig, ei thrylwyredd neu ei chyd-destun lleol. Byddai'r broses gadarnhau yn elwa'n fawr o system samplu sy'n gwerthuso'r cam dilysu.
    - Dylai datblygu fframwaith canllawiau i ysgolion sy'n modelu diwylliant, ethos, arfer ac ati fod yn hanfodol i'r egwyddorion sy'n sail i brosesau gosod targedau effeithiol.
    - Mae angen sicrhau bod y broses o lunio targedau yn canolbwyntio'n fwy ar feithrin gallu a datblygu sgiliau hyfforddi arweinwyr ar bob lefel. Mae angen i'r broses ddatblygu arweinwyr fel 'arweinwyr newid' mwy effeithiol.
    - Mae angen i ni nawr ennyn ymddiriedaeth a neilltuo amser er mwyn sicrhau ein bod yn mabwysiadu'r model/prosesau mwyaf effeithiol. Bydd rhuthro'r broses hon yn arwain at weld y problemau llygredig sydd wedi llywio'r hen system at y sefyllfa waradwyddus lle mae'n canolbwyntio ar y sefydliad yn hytrach na'r disgybl, yn dychwelyd.

- Holodd un o'r ymatebwyr am y sail resymegol dros beidio â chynnwys targedau Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, am fod angen i Gyrff Llywodraethu gyhoeddi'r targedau hyn o hyd. Nododd ymateb arall y dylid dileu gofynion gosod targedau Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3.

- Nododd ymateb arall fod angen sicrhau, heb ystyried targedau, fod Estyn yn arolygu ar sail gyfartal

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'n amlwg bod rhanddeiliaid, ar y cyfan, o blaid y cynigion a'u bwriadau.

Roedd yr amrywiad mwyaf sylweddol yn yr ymatebion a gafwyd yn ymwneud â'r cynnig ar gyfer chwe tharged amhenodol. Derbyniwn fod natur y targedau yn bwysicach na nifer y targedau a osodir. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod digon o dargedau i'w gwneud yn bosibl i amrywiaeth o dargedau gael eu gosod.

Roedd un ymatebydd o'r farn, pe na châi targedau eu casglu yn benodol ar gyfer y Gymraeg, y byddai hyn yn effeithio ar allu ALlau i lunio targedau cyfunol/unigol ystyrlon ar lefel ysgol ar gyfer y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Dylid nodi mai dim ond er mwyn ategu prosesau hunanwerthuso y dylid defnyddio targedau ysgolion ac na ddylid eu cyfuno i fyny at fesur perfformiad awdurdod lleol er mwyn dwyn ysgolion i gyfrif. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn effeithio ar Reoliadau (Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013) sy'n sail i

ofynion statudol ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a chynlluniau awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth addysg Cyfrwng Cymraeg. Dylid nodi bod adolygiad o Reoliadau 2013 wedi'i gynnal yn ystod 2017/18 ac ymgynghorir ar Reoliadau newydd sy'n ymwneud â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol yn ystod mis Mai 2019.

Galwodd nifer o ymatebion am ganllawiau er mwyn helpu ysgolion gyda'u proses gosod targedau. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu canllawiau ar gofnodi gwybodaeth am ysgolion a disgyblion ar hyn o bryd, a chaiff gwybodaeth am osod targedau ei chynnwys yn y canllawiau diwygiedig. Fodd bynnag, bydd llawer o'r canllawiau presennol ar osod targedau yn aros.

O ran newidiadau mwy sylweddol yr awgrymir y dylid eu gwneud i'r system, mae'n bwysig cofio bod y newidiadau a gynigir ar yr adeg hon yn drefniadau dros dro yn unig, cyn i'r trefniadau Gwerthuso a Gwella newydd gael eu rhoi ar waith. Prif nod y newidiadau hyn yw cysoni'r gofynion statudol o ran gosod targedau yng Nghyfnod Allweddol 4 â threfniadau dros dro ar gyfer cofnodi perfformiad, gan ddileu penodolrwydd yn y rheoliadau presennol, a chyflwyno elfen ychwanegol o ymreolaeth yn gynnar yn y broses o symud tuag at system lle mae gan ysgolion fwy o ymreolaeth.

Er y gall ysgolion ddewis gosod targedau ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yn erbyn mesurau perfformiad dros dro sy'n seiliedig ar sgoriau pwyntiau, nid ydym yn disgwyl gweld ysgolion yn gosod targedau yn erbyn yr hen fesurau oherwydd, o 2019 ymlaen, ni chaiff data ar gyfer yr hen fesurau eu cyhoeddi mwyach ar lefel is-genedlaethol.

Mewn ymateb i sylwadau a gafwyd ynghylch anghysondeb â phrosesau gosod targedau yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid nodi, yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, fod y gofynion yn cyd-fynd yn agos iawn â'r trefniadau asesu presennol. Felly, a thra bod y gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm yn dal i fynd rhagddo, ni fyddai'n ddoeth rhuthro i wneud newidiadau tebyg i'r gofynion ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

Mewn ymateb i ymholiad a oedd yn ceisio eglurder ynglŷn â thargedau presenoldeb, fel y'u nodir ym mharagraff 29 o'r ddogfen ymgynghori, mae'r diwygiadau ond yn ymwneud â pherfformiad disgyblion mewn arholiadau yng Nghyfnod Allweddol 4. Bydd yr holl ofynion eraill o ran gosod targedau yn aros yn y cyfamser.

Mae'n bwysig cadw rhyw lefel o sicrwydd er mwyn sicrhau bod targedau yn briodol. Felly, bydd angen i awdurdodau lleol gymeradwyo targedau o hyd. Fodd bynnag, eglurwyd i Gyfarwyddwyr Addysg mai dim ond er mwyn ategu prosesau hunanwerthuso y dylid defnyddio targedau ysgolion ac na ddylid eu cyfuno i fyny at fesur perfformiad awdurdod lleol er mwyn dwyn ysgolion i gyfrif.

Yn ystod y cyfnod trosiannol hwn, mae'n rhy gynnar i geisio gwneud rhagor o newidiadau sylweddol i'r gofynion o ran gosod targedau.

Yn y dyfodol, mae gofynion gosod targedau ysgol a'r graddau y cânt eu rheoli a/neu eu nodi mewn deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru yn y trefniadau Gwerthuso a Rheoli yn y dyfodol, yn rhan o drafodaethau a diwygiadau ehangach parhaus. Cyhoeddwyd y *Trefniadau Gwerthuso a Gwella (atebolrwydd) ar gyfer Cymru* ym mis Chwefror 2019:

[https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/trefniadau-drafft-gwerthuso-a-gwella-atebolrwydd-ar-gyfer-cymru.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/trefniadau-drafft-gwerthuso-a-gwella-atebolrwydd-ar-gyfer-cymru.pdf)

Mewn ymateb i bryderon ynghylch amrywioldeb prosesau hunanwerthuso ysgolion a ph'un a yw targedau priodol yn cael eu gosod, mae'r ddogfen uchod yn nodi crynodeb o'r trefniadau sy'n ymwneud â gwerthuso a gwella ac atebolrwydd. Bydd y trefniadau ar gyfer gosod targedau ar lefel ysgol yn aros, yn ogystal â'r angen i awdurdodau lleol gymeradwyo targedau, ond gyda mwy o hyblygrwydd i ysgolion adlewyrchu cyd-destun ysgolion unigol. Mae'r ddogfen hefyd yn cyfeirio at roi sylw i brosesau gwirio, dilysu a chadarnhau priodol, sydd eisoes yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith a gefnogir gan Estyn a'r OECD i ddatblygu pecyn cymorth hunanwerthuso i ysgolion.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â thargedau amrywiol ac arolygiadau, rheolir arolygiadau Estyn o ysgolion gan Ddeddf Addysg 2005 a rheoliadau cysylltiedig. Cynhelir pob arolygiad ar sail ysgol unigol, ac mae'n ofynnol i arolygwyr werthuso'r gwaith yn wrthrychol yng nghyd-destun ysgolion unigol.

## Y Camau Nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau â'r cynigion fel y'u nodir yn y ddogfen ymgynghori drwy ddiwygiadau i'r Rheoliadau ynglŷn â Gosod Targedau. Bwriedir i'r rheoliadau diwygiedig ddod i rym ar 1 Medi 2019.